## ATODLEN 2

## DIWYGIADAU CANLYNIADOL I OFFERYNNAU STATUDOL

**Rheoliadau Cyfrannau Cyllideb Ysgolion (Cymru) 2004 (O.S. 2004/2506)(Cy. 224)**

**38.** Yn Rheoliadau Cyfrannau Cyllideb Ysgolion (Cymru) 2004:

(1) Yn rheoliad 2 hepgorer "ystyr y Cyngor Cenedlaethol ("*the National Council*") yw Cyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant".

(2) Yn rheoliad 7(3) hepgorer "neu'r Cyngor Cenedlaethol".

(3) Yn rheoliad 8(2) yn lle "Cyngor Cenedlaethol" rhodder "Cynulliad Cenedlaethol".

(4) Yn rheoliad 14(2) yn lle "Cyngor Cenedlaethol" rhodder "Cynulliad Cenedlaethol".

(5) Yn y pennawd i reoliad 15 yn lle "Cyngor Cenedlaethol" rhodder "Cynulliad Cenedlaethol".

(6) Yn rheoliad 15 yn lle "Cyngor Cenedlaethol" rhodder "Cynulliad Cenedlaethol".